Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Trawsfynydd

**Y.M.C.A.**
**Trawsfynydd**
**Gwynedd**
**LL41 4SF**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Trawsfynydd

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Trawsfynydd |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Elizabeth Jones |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Mary Khademzadeh |
| Nifer y lleoedd | 20 |
| Amrediad oedran y plant | 2.5 oed hyd at 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 7 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 1 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener o 09:00 tan 13:00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 24/01/2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mehefin 2014 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 06/02/2023 |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Darparu gwell cyfleoedd i blant ddatblygu eu holl fedrau yn yr ardal allanol

A2 Sicrhau bod cyfleusterau newid clytiau yn gwbl addas i ddiwallu anghenion y plant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae’r rhan fwyaf o blant yn dangos boddhad a hapusrwydd wrth chwarae ac maent yn rhyngweithio’n dda ag ymarferwyr ac ymwelwyr. Maent yn awyddus iawn i siarad ag oedolion ac mae bron bob un ohonynt yn hapus tra’n cydweithio a siarad â'i gilydd. O ganlyniad, mae llawer o blant yn mynegi eu teimladau’n hyderus.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau effeithiol ynglŷn â ble a gyda phwy yr hoffent chwarae. Er enghraifft, mae’r rhan fwyaf yn symud rhwng gwahanol weithgareddau yn hyderus yn ystod chwarae rhydd. O ganlyniad, maent yn dilyn eu hoffterau personol yn effeithiol, fel darganfod rhifau yn y twba tywod a chwarae rôl trwy goginio brecwast yn y gegin fwd allanol. Yn ogystal, mae’r rhan fwyaf o blant yn dangos dyfalbarhad yn eu chwarae a’u dysgu ac maent yn chwarae gydag adnoddau sy'n eu diddori am gyfnodau estynedig.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn cyrraedd yn hapus, yn llawn bywyd ac yn barod i chwarae a dysgu. Mae bron bob plentyn yn hapus ac yn gyfforddus yng ngofal yr ymarferwyr. Mae’r rhan fwyaf o blant yn deall gweithdrefnau'r lleoliad ac yn mynd yn syth i olchi dwylo yn barod i frwsio’u dannedd. Maent yn deall bod ymarferwyr yn gwrando ar eu dymuniadau a'u pryderon yn deyrngar. Er enghraifft, maent yn mynd at ymarferwyr am gymorth gyda theganau sy’n anodd i’w gweithio, neu am gysur, pan fo’r angen yn codi, fel ar ôl iddynt gwympo wrth ddringo cyfarpar anturus.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn deall ac yn cadw at reolau ymddygiad y lleoliad yn dda. Mae bron bob plentyn yn cyfathrebu’n gwrtais gyda phlant eraill, ymarferwyr ac ymwelwyr. Maent yn cydweithio ac yn rhannu adnoddau yn llwyddiannus. Maent yn dysgu sut i aros ac i gymryd eu tro ac yn amyneddgar iawn. Er enghraifft, maent yn aros eu tro i ddefnyddio’r ‘walkie-talkies’, er mwyn cyfathrebu â’u ffrindiau.

Mae gan y rhan fwyaf o blant fedrau annibynnol da. Er enghraifft, maent yn golchi eu dwylo yn effeithiol ac yn tynnu eu cotiau a gosod eu bagiau yn drefnus. Yn ogystal, maent yn arllwys eu llaeth a dŵr yn annibynnol ac yn defnyddio gefeiliau’n fedrus i godi a dewis ffrwythau yn ystod amser byrbryd. Maent yn gwrtais ac yn dweud ‘diolch’, pan fo’n briodol. Mae’r ‘helpwr heddiw’ yn paratoi byrbryd yn y gegin gydag ymarferwyr yn hyderus ac yn defnyddio cyllell yn gywir. Mae bron bob plentyn yn cyd-chwarae’n dda ac yn mwynhau cwmni ei gilydd wrth chwarae gemau a chymdeithasu o gwmpas y lleoliad.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn mwynhau dysgu medrau newydd wrth iddynt arbrofi ag amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae diddorol, y tu mewn yr adeilad ac yn yr awyr agored. Mae’r rhan fwyaf o blant yn ymfalchïo bod eu gwaith crefft yn cael ei arddangos ar fyrddau arddangos. Mae hyn yn creu naws a theimlad o hunan-werth a pherthyn ymysg y plant.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad:**

Mae ymarferwyr yn dilyn systemau trylwyr a chadarn i sicrhau iechyd a diogelwch y plant. Mae ganddynt ddealltwriaeth da o'u cyfrifoldebau ac maent yn darparu cyfleoedd cyfoethog i blant ddatblygu yn ôl eu hoedran a'u gallu. Maent yn cadw cofnodion am bryderon, damweiniau, digwyddiadau ac unrhyw wybodaeth berthnasol yn ddiogel. Mae hyn yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan yr arweinwyr. Mae hyfforddiant yr holl ymarferwyr ynglŷn ag amddiffyn plant yn gyfredol ac yn ddefnyddiol, wrth drafod unrhyw broblemau neu bryderon sy'n codi. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae tystysgrifau cymorth cyntaf a hylendid bwyd cyfredol gan bob un o'r ymarferwyr, sy'n sicrhau dealltwriaeth gadarn o'r prosesau i'w dilyn. Mae'r gweithdrefnau a'r arferion hylendid yn effeithiol ac mae'r ymarferwyr yn annog y plant i olchi eu dwylo ar yr amseroedd priodol yn gwbl annibynnol.

Mae'r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithiadau â'r plant yn hynod effeithiol, ac mae perthynas hyfryd yn bodoli rhyngddynt.  Mae'r ymarferwyr yn gweithredu'r polisi rheoli ymddygiad yn dda ac maent yn siarad â'r plant yn synhwyrol, ac mewn ffyrdd y maent yn eu deall. Er enghraifft, mae'r ymarferwr yn atgoffa plant mai dim ond 'dwylo caredig' sydd i'w defnyddio yn y lleoliad. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn modelu ymddygiad effeithiol ac yn dangos parch cyson tuag at y plant a'i gilydd.

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth dda am anghenion a hoffterau pob plentyn, trwy weithredu ar wybodaeth gan rieni wrth iddynt gofrestru eu plant yn y lleoliad. Maent yn ymwybodol o gamau datblygu pob plentyn ac maent yn gweithredu'n effeithiol ar y camau nesaf yn nhaith ddysgu plant unigol.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo dealltwriaeth y plant o bwysigrwydd trin pobl o bob cefndir diwylliannol â pharch a goddefgarwch. Maent yn datblygu eu dealltwriaeth o ddathliadau fel astudio'r Flwyddyn Newydd Tsieiniaidd a diwrnod Santes Dwynwen yn dda. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson gyda'r plant, sy'n cynnal a datblygu eu Cymraeg yn fwriadus.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae dulliau addysgu deallus yr ymarferwyr yn annog y plant i gydweithredu'n synhwyrol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Maent yn ysgogi'r plant i ddatblygu ystod eang o fedrau buddiol. Mae'r ymarferwyr yn darparu gweithgareddau diddorol, sy'n galluogi'r plant i fentro a datblygu eu medrau gwybyddol yn dda. Er enghraifft, maent yn herio'r plant i ddilyn rysait i greu bisgedi, mewn siâp calon, i ddathlu diwrnod Santes Dwynwen, ac i beintio bryniau cyfagos gyda'r haul a chymylau uwchben.

Mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn effeithiol yn ystod gweithgareddau ac maent yn fedrus wrth gymell y plant i arbrofi wrth chwarae. Maent yn cynnal trafodaethau effeithiol gyda'r plant ar sut i wella'u gwaith. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n ddysgwyr hyderus ac annibynnol. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn herio'r plant i ddarganfod y ffyrdd gorau i gasglu dŵr o gasgen, a'i drosglwyddo i badell heb wastraffu'r hylif.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n cynnwys trafodaethau synhwyrol a pharodrwydd i ddilyn awgrymiadau'r plant yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys cerdded i'r siop leol i brynu ffrwythau. Maent yn cyd-gynllunio'n dda i sbarduno dysgu'r plant trwy amrywiaeth o heriau ymarferol, fel adeiladu tyrau allan o friciau i gyfatebu â'u huchder. Yn ogystal, maent yn defnyddio'r sgyrsiau pwrpasol hyn a'u plethu â'u hasesiadau yn fwriadus i gynllunio camau nesaf penodol yn nysgu plant unigol.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd diddorol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant ac yn ymestyn eu dealltwriaeth trwy eu holi'n gelfydd wrth chwarae. Gwneir hyn wrth i'r plant greu marciau ar glipfwrdd pan fyddant yn archebu ffrwythau yn y siop chwarae rôl, ac wrth iddynt ddidoli a rhifo anifeiliaid y fferm yn yr ardal byd bach. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd cyson a rheolaidd i wella medrau digidol cynnar y plant trwy ddefnyddio llechi electronig, ffonau symudol a bysellfwrdd. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn darparu digon o gyfleoedd i blant ddatblygu eu holl fedrau yn effeithiol yn yr ardal allanol.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus, fel annog y plant i symud olwynion a phlanciau pren i greu llwybr antur. Maent yn darparu gweithgareddau creadigol effeithiol fel cymell y plant i greu rhythmau gwahanol gyda seiloffon, tambwrîn ac wrth daro sosbenni ar y wal gerddoriaeth. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn herio'r plant i gymysgu dŵr, pridd a hadau yn y gegin fwd i greu prydau gwahanol, ac i godi strwythurau i uchder penodol fel adeiladwr.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn effeithiol. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru'n dda trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a chyfrannu i gystadlaethau arlunio'r eisteddfodau lleol. Yn ogystal, maent yn dathlu amrywiaeth yn effeithiol trwy astudio arferion y Flwyddyn Newydd Tsieiniaidd a darllen llyfrau sy'n ymwneud â materion amlddiwylliannol ac anabledd.

Mae'r ymarferwyr yn darparu gwybodaeth fuddiol i rieni a gofalwyr am gyflawniadau eu plant. Gwneir hyn trwy gyfryngau cymdeithasol, trafodaethau llafar a llyfryn cynnydd, sydd ar gael yn ystod ac ar ddiwedd eu hamser yn y lleoliad.

**Yr amgylchedd:**

Mae'r ymarferwyr yn ymwybodol iawn o faterion iechyd a diogelwch. Ni all ymwelwyr fynd at unrhyw ran o'r lleoliad oni bai bod ymarferwr yn rhoi mynediad iddynt. Er enghraifft, mae'r giât i fyned i dir y lleoliad ar glo unwaith mae'r holl blant yn cyrraedd ar ddechrau sesiwn.

Mae'r ymarferwyr yn wyliadwrus wrth oruchwylio plant yn ystod y sesiynau er mwyn sicrhau eu diogelwch. Maent yn sicrhau bod y plant yn ddiogel trwy weithredu'n dda

ar ystod o bolisïau clir a chynhwysfawr. Maent yn asesu risgiau yn effeithiol, sy'n cynnwys mynd am dro o gwmpas y pentref, cerdded i 'Bryn y Gofeb' a mynd â'r plant i'r ysgol gynradd gyfagos.

Mae'r arweinwyr yn ymateb i faterion o ddiogelwch y plant ac i unrhyw achos sy'n codi yn brydlon. Er enghraifft, maent yn monitro ac ymarfer driliau tân yn gyson er mwyn sicrhau bod y plant yn gyfarwydd â'r trefniadau i'w dilyn pe bai rheswm iddynt adael yr adeilad ar frys. Mae'r ymarferwyr yn cadw cofrestr o bob plentyn sy'n mynychu'r sesiynau ac yn cofnodi amseroedd cyrraedd a gadael yn drwyadl. Mae niferoedd yr ymarferwyr fel arfer yn rhagori ar ddisgwyliadau'r safonau, ac o ganlyniad, goruchwylir y plant yn effeithiol.

Mae ansawdd yr amgylchedd dysgu a'r ardaloedd chwarae yn dda. O ganlyniad, maent yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i blant i gydweithio a chyfathrebu yn yr adeilad a thu allan. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd chwarae, y cyfarpar, y teganau a'r adnoddau yn ysgogol ac yn addas ar gyfer y plant. Mae trefn yr adeilad yn caniatáu i'r plant symud o gwmpas yr ystafell ac i lifo'n rhydd rhwng yr adeilad a'r ardaloedd allanol. Mae hyn yn galluogi'r plant i wneud penderfyniadau effeithiol am eu dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio ar greu amgylchedd naturiol er mwyn creu naws glòs ac ymlaciol. Maent yn sicrhau bod yr adnoddau mewnol ac yn yr awyr agored yn diddori ac yn dal sylw'r plant yn effeithiol. Mae'r adnoddau'n cael eu cadw ar lefel ymarferol i'r plant, ac o ganlyniad, maent yn gallu eu cyrraedd yn hawdd. Mae'r lleoliad yn daclus ac yn ddeniadol ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r dodrefn, cyfarpar, teganau ac adnoddau yn lân, o ansawdd da ac yn cael eu storio ar lefel sy'n addas i'r plant fedru gwneud dewisiadau'n annibynnol. Mae cyfleusterau tŷ bach y lleoliad yn lân ac mae eu defnydd yn atgyfnerthu medrau annibynnol y plant. Fodd bynnag, nid yw cyfleusterau newid clytiau yn gwbl addas ynglŷn â diwallu anghenion y plant.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r arddangosfeydd yn bwrpasol i sicrhau bod plant yn datblygu ymwybyddiaeth o berthyn yn llwyddiannus. Gwneir hyn trwy arddangos lluniau ohonynt yn chwarae a'u gwaith crefft yn y 'Galeri'. Er enghraifft, maent yn arddangos lluniau o'r plant yn coginio gyda mwyar duon ac yn arddangos casgliad o'u portreadau, sydd wedi eu hysbrydoli trwy eu hastudiaeth o fyd natur a'r adar sy'n ymweld â'r lleoliad.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod prosesau effeithiol ar waith sy'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar greu gwelliannau cyson i'r ddarpariaeth a'r gweithdrefnau dyddiol. Yn ogystal, maent yn dilyn prosesau recriwtio diogel, cadarn ac amserol.

Mae'r person cofrestredig yn gweithio'n dda â'r arweinydd a'r ymarferwyr diwyd i ddarparu profiadau diddorol er lles y plant. Mae gweledigaeth bwrpasol yr arweinydd yn sicrhau darpariaeth gyflawn, sy'n canolbwyntio'n gadarn ar wella dysgu'r plant. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn cynnig cymorth bugeiliol gofalus, fel cysuro plant yn deyrngar ar ôl iddynt gael niwed. O ganlyniad, mae'r holl ymarferwyr yn cymell y plant i wneud eu gorau glas yn gyson, trwy heriau difyr ac ysgogaeth gefnogol.

Mae gweithdrefnau da o ran hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant yn effeithio'n llwyddiannus ar arferion y lleoliad. Maent yn canolbwyntio'n fwriadus ar greu gwelliannau. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn dîm cytûn. Maent yn cydweithio'n ddyfal ac yn gwrando'n dda ar awgrymiadau swyddogion yr asiantaethau cefnogi. Mae gan yr arweinwyr drefniadau cyson i fonitro arferion y lleoliad. Mae'r person cofrestredig yn cydweithio â'r arweinydd i ddilysu penderfyniadau yn effeithiol ac i adnabod cryfderau'r lleoliad a'r materion i'w gwella. Mae'r gweithdrefnau hyn yn sicrhau targedau dibynadwy yn y cynllun datblygu, fel gwella'r ddarpariaeth yn yr ardal allanol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau ystyriaeth lawn i farnau pawb sy'n rhan o fywyd y lleoliad. Maent yn cynnal trafodaethau ystyrlon â'r holl randdeiliaid, fel y rhieni a'r awdurdod lleol, i wella'r ddarpariaeth a phrofiadau'r plant. Er enghraifft, maent yn gwrando'n ofalus ar y swyddogion cefnogi ynglŷn â datblygu'r arferion cynllunio, er mwyn dilyn diddordebau'r plant yn well. Yn ogystal, maent yn gweithredu ar awgrymiadau'r rhieni a'r gofalwyr yn synhwyrol, fel defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfleu gwybodaeth am weithgareddau'r plant.

Mae'r arweinwyr yn dyrannu adnoddau'n ddoeth. Maent yn sicrhau digon o ymarferwyr cymwys ac yn galluogi iddynt fynychu hyfforddiant perthnasol i fodloni anghenion y plant yn fwriadus. Mae'r defnydd o'r gyllideb a grantiau yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r lleoliad yn dda. O ganlyniad, mae agweddau cadarnhaol a diffuant yr arweinwyr yn hyrwyddo profiadau cyffrous ac addysgiadol i'r plant. Gwneir hyn trwy gyllido adnoddau gwerthfawr, fel adnoddau digidol, cegin fwd a phabell bren.

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau cadarn ac mae'r cysylltiadau hyn yn cefnogi'r lleoliad trwy gynnig profiadau difyr i'r plant i ddysgu am eu cynefin. Er enghraifft, maent yn ymweld â'r siop leol i brynu nwyddau yn wythnosol ac yn ymuno mewn gwibdeithiau i goedwigoedd yr ardal gyda'r ysgol gyfagos. O ganlyniad, mae'r berthynas gynhyrchiol â'r ysgol yn paratoi'r plant ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn effeithiol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 12/04/2023

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

Lle byddwn yn nodi nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Argymhellion ar gyfer Cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete